Dowch i'r parti

Cysyniadau:	**Cydfwynhau, cyfeillgarwch, gosod esiampl, ufudd-dod.**
Amcan:	**Dangos i'r plant fod yna le i bawb yn y parti.**
Cyfarpar:	**Miwsig llawen i gyfleu llawenydd. Bag yn cynnwys platiau, mygiau a hetiau parti, lliain lliwgar a chreision.**

Cyflwyniad:

● Ar ôl tawelu'r gerddoriaeth am gyfnod byr ei ailchwarae a gofyn i'r plant am beth mae'r gerddoriaeth yn eu hatgoffa. Gobeithio bydd un o'r plant yn cyfeirio at barti!

● Yna agor y bag sydd ar y bwrdd a rhoi'r platiau, y mygiau plastig a'r hetiau ar y lliain lliwgar ar y bwrdd. Rhoi ychydig o greision ar y platiau.

Holi'r plant:

● Faint ohonyn nhw sydd wedi bod mewn parti'n ddiweddar?

● Pa fath o barti?

● Oedd yna lawer o blant yno?

● Oedden nhw'n gwisgo gwisg ffansi?

● Beth gawson nhw i'w fwyta?

● Pa gemau fuon nhw'n chwarae?

Trafodaeth bellach:
Rydym i gyd yn hoffi cael gwahoddiad i barti i gael hwyl, i fwyta bwydydd dipyn gwahanol i'r arfer a chwarae gemau. Rydym i gyd yn hoffi bod yn rhan o'r hwyl a'r sbri.

Stori:

Un diwrnod roedd Iesu ar ei ffordd drwy dref o'r enw Jericho. Dyma'r hanes fel y mae yn y Beibl:

Aeth Iesu yn ei flaen i mewn i Jericho, ac roedd yn mynd drwy'r dref. Roedd dyn o'r enw Sacheus yn byw yno – Iddew oedd yn arolygwr yn adran casglu trethi Rhufain. Roedd yn ddyn hynod o gyfoethog. Roedd arno eisiau gweld Iesu, ond roedd yn ddyn byr ac yn methu ei weld am fod gormod o dyrfa o'i gwmpas. Rhedodd ymlaen a dringo coeden sycamorwydden oedd i lawr y ffordd lle roedd Iesu'n mynd, er mwyn gallu gweld.

Pan ddaeth Iesu at y goeden, edrychodd i fyny a dweud wrtho, "Sacheus, tyrd i lawr. Mae'n rhaid i mi ddod i dy dŷ di heddiw." Dringodd Sacheus i lawr ar unwaith a rhoi croeso brwd i Iesu i'w dŷ.

Doedd y bobl welodd hyn ddim yn hapus o gwbl! Roedden nhw'n cwyno a mwmblan, "Mae wedi mynd i aros i dŷ 'pechadur' – dyn ofnadwy!"

Ond dyma Sacheus yn dweud wrth Iesu, "Arglwydd, dw i'n mynd i roi hanner popeth sydd gen i i'r rhai sy'n dlawd. Ac os ydw i wedi twyllo pobl a chymryd mwy o drethi nag y dylwn i, tala i bedair gwaith cymaint yn ôl iddyn nhw."

Luc 19:1–8 beibl.net

Trafodaeth:
● Egluro bod casglwyr trethi yn bobl amhoblogaidd yng nghyfnod Iesu. Roedden nhw'n bobl gyfoethog iawn ac yn aml roeddent yn cymryd mwy o arian nag y dylen nhw. Mae'r ffaith fod Sacheus yn byw yn Jericho yn dangos ei fod yn ddyn cyfoethog. Pobl gyfoethog oedd yn byw yn y dref honno.

- Lle roedd Sacheus pan welodd Iesu ef?

- I ble'r aethon nhw i gael y parti?

- Beth oedd pobl eraill yn feddwl o hyn?

- Pa effaith gafodd ymweliad Iesu â Sacheus?

Emyn: Cân Sacheus: Canu Clod 56

Munud i feddwl:
Mae parti yn bleser pur.
Mae cael bod efo ffrindiau yn un parti mawr.

Myfyrdod/Gweddi:
Diolch, Iesu, dy fod di'n hoffi cael gwahoddiad i barti. Rydym ninnau hefyd. Helpa ni i fwynhau ein hunain ac i gynnwys pawb, yn enwedig y rhai fyddai'n teimlo eu bod wedi cael eu hanwybyddu a'u gadael allan. Diolch. Amen.